



<b>Presennol:</b>	Huw Jones John Davies Hugh Hesketh Evans Guto Harri Siân Lewis Elan Closs Stephens	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
<b>Staff S4C:</b>	Ian Jones Elin Morris Gwyn Williams Amanda Rees Phil Williams Bethan C. Williams Sharon Winogorski Steve Thomas	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Prif Swyddog Cyllid) – eitem 9 (Ymgynghorydd Strategaeth a Pholisi)

---

#### **MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.  
*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion cyfarfod 404 a Materion yn Codi**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 404 (a gynhaliwyd ar 12.01.17) a nodwyd y materion canlynol.  
Cymeradwywyd y cofnodion gan ymgorffori'r newid uchod.

3. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau a Materion yn codi**

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau er gwybodaeth.

4. **Cynllun Gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg**

Cyflwynodd GW y Cynllun Gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg arfaethedig sy'n esbonio sut y bydd S4C yn gweithredu'r safonau iaith berthnasol.

Nodwyd y sylwadau canlynol:

Bydd angen sicrhau fod staff dros-dro yn derbyn hyfforddiant parthed gofynion y safonau.

Nodwyd y dylid addasu nifer o'r ymrwymadau i nodi "sy'n gallu darparu gwasanaeth".

Holwyd am oblygiadau'r safonau o ran dogfennau y mae S4C yn eu cyhoeddi a nododd GW mai'r bwriad oedd ymrwmo i gyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog fel arfer, ond bod gan S4C yr hawl hefyd i gyhoeddi dogfennau uniaith Gymraeg.

Esboniwyd mai'r egwyddor sylfaenol oedd na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac felly y byddai modd cyhoeddi dogfennau naill ai'n Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog.

Nodwyd nad oedd y safonau'n berthnasol i weithgareddau darlledu a chreu cynnwys S4C.

Cafwyd trafodaeth am gyfrifoldebau'r cynhyrchwyr annibynnol o ran cydymffurfio gyda gofynion y Safonau Iaith. Nodwyd fod y cyfrifoldeb ar gyfer cydymffurfio'n berthnasol i S4C ei hun ac nid i'w chyflenwyr. Serch hynny, awgrymwyd y dylid ystyried darbwyllo cyflenwyr S4C, lle'n berthnasol, i weithredu'n unol ag egwyddorion y safonau.

### **Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu.**

#### **5. Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

#### **Y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig**

Cyflwynodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Seneddol ar Faterion Cymreig. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:

- Sefyllfa ariannol bresennol S4C ac effaith ansicrwydd ariannol ar S4C, gan gynnwys effaith ar y gwasanaeth ac elfennau megis is-deitlo a'r ddarpariaeth HD;
- Sut y gallai Brexit effeithio ar S4C;
- Gwybodaeth am y cais am bwerau benthyg;
- Diweddariad o ran paratodau'r Adolygiad;
- Beth fydd prif heriau'r Prif Weithredwr newydd;
- Y berthynas rhwng S4C a'r BBC;
- Diweddariad ynglŷn â'r cynllun Adleoli a'r Egin a chais PCDDS am arian grant ar gyfer datblygu'r Egin. Wrth ateb, cafwyd cyfle i gadarnhau fod S4C wedi derbyn ymrwymiad di-droi'n ôl gan PCDDS ar gyfer datblygu ac ariannu'r Egin.

#### **Yr Egin**

[Crynodeb: cafwyd diweddariad parthed trefniadau'r prosiect, gan gynnwys materion ariannu]

Nodwyd y byddai cyfle i drafod datblygiad Yr Egin ymhellach wrth drafod Adroddiad Y Prif Weithredwr.

#### **Cyfarfod Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr cyrff a noddir gan DCMS**

Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod ar gyfer cadeiryddion a phrif weithredwyr cyrff cyhoeddus DCMS yn ddiweddar. Goblygiadau Brexit oedd un o'r prif bynciau trafod. Cafwyd cyfle hefyd i siarad â Sue Owen, yr Ysgrifennydd Parhaol yn ogystal â'r Gweinidog, Matt Hancock.

#### **6. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

#### **Diweddariad ar drafodaethau'r TSA gyda'r BBC**

Cyflwynodd EM ddiweddariad parthed trafodaethau cytundeb y TSA gyda'r BBC. Eglurwyd fod cynnydd wedi ei wneud mewn perthynas â nifer o faterion yn ystod y mis diwethaf. Pwysleisiodd yr Aelodau y byddai angen ystyried y trefniant, a'r elfennau ariannol yn eu cyfanrwydd er mwyn dod i benderfyniad a yw trefniant y TSA yn cynnig y gwerth gorau i S4C.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am amserlen cytuno ar drefniadau'r prosiect.]

#### **Trefn Adborth i Gynhyrchwyr (atodlen B3)**

Cyflwynodd AR enghraifft o'r dull o gyflwyno adborth i gynhyrchwyr.

Roedd cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda sawl cwmni er mwyn cyflwyno adborth iddynt a chafwyd ymateb cadarnhaol yn gyffredinol i'r fformat. Bwriedir cyflwyno adborth o'r math hwn i'r cwmnïau mawr yn chwarterol. Nodwyd y byddai trefn debyg yn cael ei defnyddio ar gyfer cyflwyno adborth i gwmnïau llai, ac y byddai cwmnïau llai yn derbyn adborth yn dilyn darllediad eu rhaglenni neu gyfresi.

Nodwyd fod yr enghraifft a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar berfformiad meintiol a holwyd sut y bydd asesiad o berfformiad ansoddol yn cael ei gyflwyno a'i drafod. Esboniodd AR ei bod yn awyddus i gyfuno dadansoddiad ystadegol ar bapur a thrafodaeth am elfennau ansoddol perfformiad rhaglenni ar lafar yn ystod y cyfarfodydd chwarterol gyda'r cynhyrchwyr.

Nodwyd awydd yr Awdurdod i sicrhau fod swyddogion yn darparu adborth cynhwysfawr i'r cwmnïau er mwyn caniatáu trafodaeth agored a chynhyrchiol am lwyddiant y gwasanaeth.

### **Cynllun Casglu Data (atodlen C1)**

Cyflwynwyd diweddariad parthed y cynllun casglu data gan Gwyn Williams.

Esboniwyd bydd y BBC yn gorfodi defnyddwyr yr iPlayer i greu cyfrifon a chofrestru er mwyn parhau i wyllo cynnwys drwy'r iPlayer yn ystod y misoedd nesaf. Bydd angen deall beth fydd effaith y cynllun ar wyllo S4C drwy'r iPlayer a pha ddefnydd y gall S4C ei wneud o ddata a gesglir gan y BBC am wyllo cynnwys S4C.

Esboniwyd mai'r bwriad oedd lansio system gofrestru ar gyfer gwefan S4C ar ôl y BBC, ac y byddai hyn yn rhoi cyfle i S4C ddysgu o unrhyw wersi o broses y BBC. Nodwyd mai ond un a hanner aelod o staff S4C sy'n gweithio'n rhannol ar y cynllun casglu data a chofrestru a bod hyn yn golygu y byddai unrhyw ddatblygiadau'n cymryd amser hir i'w gwireddu.

Awgrymwyd y dylid ystyried a oes cyfleoedd i gydweithio gyda'r BBC, er enghraifft o fewn cytundeb y TSA, er mwyn elwa o'u datblygiadau cofrestru a theilwra'r iPlayer ar gyfer defnyddwyr. Gallai cydweithio ar brosiectau yn hytrach na dyblygu ymdrechion greu arbedion ariannol i S4C.

Cyfeiriwyd at ymdrechion S4C i ddarbwylo pobl i gofrestru ar gyfer FyS4C ac i dderbyn y cylchlythyr e-bost misol. Holwyd sut mae S4C yn targedu gwylwyr ac esboniwyd fod presenoldeb mewn digwyddiadau megis yr Eisteddfodau a'r sioeau yn parhau'n ddull pwysig o ddenu tanysgrifwyr newydd.

Awgrymwyd y dylid manteisio ar aelodaeth partneriaid megis y Sioe Frenhinol, a'r Eisteddfodau i hyrwyddo darpariaeth S4C. Cadarnhaodd GW fod defnydd yn cael ei wneud o gylchlythron partneriaid.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am gynllun e-bost presennol S4C]

### **Strategaeth Cynnwys a Digidol newydd**

Cyflwynodd AR y Strategaeth Cynnwys a Digidol newydd a oedd yn ddatblygiad o'r amlinelliad a gyflwynodd i'r Awdurdod ym mis Rhagfyr.

Esboniwyd fod prif benawdau'r strategaeth yn canolbwyntio ar:

- sicrhau hirhoedledd ar gyfer gwasanaethau S4C;
- amrywio demograffeg y gynulleidfa; a
- bod yn llai dibynnol ar y gynulleidfa graidd bresennol.

Cyfeiriwyd at benawdau'r cynllun:

#### **Y Cynllun:**

- troi'r gwylwyr ysgafn yn wylwyr mwy cyson;
- lleihau cyfartaledd oedran gwylwyr S4C;
- targedu gwylwyr 45 – 64 a 16 – 34 oed; a
- thargedu gwylwyr llai rhugl, y di-gymraeg a gwylwyr mewn cartrefi cymysg.

#### **Y Cynnwys**

- Creu'r Sgwrs, Cyffwrdd y Galon, Tanio'r Dychymyg.

#### **Y Neges:**

- S4C - yn agos atat ac yn mynd â thi ymhell.

### **Perfformiad diweddar – ffactorau cadarnhaol:**

- cyrhaeddiad yng Nghymru wedi sefydlogi;
- canran uwch o wylwyr dan 16 oed nag unrhyw PSB arall;
- cyfartaledd AI S4C (79) yn uwch na PSB's eraill (75) yng Nghymru;
- cynnydd sesiynau gwyllo rhaglenni ar-lein (dros 8.30 miliwn yn 15/16); a
- chynnydd sesiynau gwyllo clipiau ar-lein - 2.7 miliwn ym mis Ionawr 2017.

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at nifer o feysydd lle roedd angen ystyried dulliau o wella'r perfformiad megis dosraniad gwyllo o fewn y gynulleidfa ac oedran rhai carfannau o'r gynulleidfa, a thrafodwyd perthnasedd mesuryddion perfformiad presennol S4C i'r strategaeth newydd]:

Nododd yr Aelodau y bydd angen sicrhau cynllun marchnata a hyrwyddo uchelgeisiol i gyd-fynd gyda'r Strategaeth Cynnwys.

Nodwyd elfen o rybudd am y pwyslais gan bob darlledwr ar bobl ifanc, gan nodi fod angen sicrhau fod y strategaeth yn apelio i gynulleidfa newydd ond heb droi cefn ar y gynulleidfa draddodiadol.

[Crynodeb: Esboniwyd fod bwriad i gyflwyno nifer o newidiadau i'r amserlen, ac y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei gyhoeddi maes o law]  
Diolchwyd i AR am ei chyflwyniad ac am lunio strategaeth uchelgeisiol a chyffrous ar gyfer y gwasanaeth.

### **Cymeradwywyd y Strategaeth Cynnwys a Digidol.**

#### **7. Adolygiad 2017**

Nodwyd y byddai'r Cadeirydd a PW yn cyfarfod swyddogion DCMS yfory i drafod nifer o faterion gan gynnwys paratodau ar gyfer yr Adolygiad.

Cyflwynodd IHJ adroddiad yn cynnwys amserlen ar gyfer paratodau'r adolygiad ac esboniodd mai pwrpas y ddogfen drafft oedd cyflwyno gweledigaeth S4C gyfer y dyfodol.

Cyflwynodd ST amlinelliad o gynnwys y ddogfen. Esboniwyd mai'r bwriad yw i'r ddogfen edrych yn wahanol, yn feiddgar, yn lliwgar, ac ddim yn 'gorfforaethol' ei naws. Bydd yn defnyddio nifer o dechnegau gwahanol i gyflwyno'r wybodaeth – bydd maint y ddogfen yn fwy na'r arfer, yn cynnwys lluniau, siaced lwch, a thudalennau fydd yn agor allan yn y canol. Bydd y fersiwn arlein yn rhoi profiad rhyngweithiol i'r darllenydd.

Esboniodd IHJ ei fod yn awyddus i gael mewnbwn ac arweiniad yr Aelodau, a bod bwriad i gael cymeradwyaeth yr Awdurdod i'r fersiwn derfynol yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod a'i chyhoeddi yn nhrydedd wythnos fis Mawrth.

Cafwyd trafodaeth am naratif a chynnwys y ddogfen, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

Nodwyd ei bod yn bwysig i gyflwyno neges gadarnhaol sy'n seiliedig ar lwyddiant presennol y gwasanaeth, yn hytrach na chyflwyno darlun negyddol o gyfyngiadau'r gwasanaeth a'r hyn na ellir ei wneud ar hyn o bryd.

Nodwyd elfen o bryder nad oedd y ddogfen yn esbonio'r hyn y mae S4C yn ei geisio o'r adolygiad yn ddigon clir. Bydd angen cyflwyno dadleuon deallusol clir ar gyfer pob elfen o'r weledigaeth yng nghyflwyniad neu grynodedd y ddogfen.

Roedd angen pwysleisio gwerth diwylliannol, ieithyddol ac economaidd gwasanaeth S4C.

Nodwyd cefnogaeth i'r diffiniad o S4C fel darparwr cynnwys yn hytrach na darlledwr teledu'n unig, ond bod angen gallu esbonio'n glir pam fod angen diweddarau'r cylch gorchwyl er mwyn cyflawni hyn.

Os oedd gofyn am ddiweddarau cylch gorchwyl S4C yn fater pwysig, yna dylid sicrhau fod yr hyn y mae S4C yn gofyn amdano a'r rhesymeg o ran beth fyddai'r newid yn galluogi S4C i'w wneud yn glir yn y ddogfen.

Cyfeiriwyd at natur y ddogfen ac awgrymwyd y dylid sicrhau na fyddai unrhyw ddogfennau'n ymddangos yn gostus.

Awgrymwyd fod angen cynnwys rhagor o elfennau'r Strategaeth Cynnwys yn y ddogfen, gan geisio cyflwyno cyffro a photensial y weledigaeth.

Roedd y ddogfen yn tueddu i ganolbwyntio ar gynnwys ffurf fer yn benodol yn hytrach na'r uchelgais ar gyfer gwyllo teuluol sy'n amlwg yn y Strategaeth Cynnwys newydd.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am ddatblygu llwyfannau gwyllo arlein ar gyfer cynnwys S4C, a nodwyd pwysigrwydd partneriaeth S4C gyda'r BBC iPlayer]

## **Ariannu**

Cafwyd trafodaeth am naratif y ddogfen mewn perthynas â gofynion ariannol S4C a dyletswyddau 'ariannu digonol' yr Ysgrifennydd Gwladol.

Nodwyd fod yr adolygiad yn gyfle pwysig i osod egwyddorion ar gyfer ystyried anghenion ariannu digonol yn y dyfodol, gan gyfeirio at egwyddorion cydnabyddedig yr EBU ar gyfer ystyried anghenion ariannu darlledwyr PSB/PSM.

O ran cyflwyno anghenion ariannol, nodwyd y dylid sicrhau fod y cyswllt rhwng y weledigaeth a'r adnoddau y byddai eu hangen i'w gwireddu'n glir i'r darlennydd.

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at y symiau ariannol a nodir yn y ddogfen drafft. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid cynnwys symiau ariannol er mwyn enghreifftio'r her sy'n wynebu S4C].,

Nodwyd y dylid ystyried ymhellach sut i gyflwyno'r dewisiadau ariannol, gan sicrhau fod y cyswllt rhwng y Strategaeth Cynnwys a'r dewisiadau anodd o ran ymestyn a moderneiddio'r ddarpariaeth ai peidio yn glir i'r darlennydd.

Awgrymwyd y dylid cynnwys cymhariaeth o ran costau darpariaeth S4C gyda chostau cyfartaledd genres darlledwyr eraill er mwyn rhoi cyd-destun i'r gwahaniaeth rhwng gallu S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a chystadlu gyda darlledwyr eraill, a'r gwerth am arian y mae S4C a'r sector gynhyrchu yn ei ddarparu.

Holwyd pam nad oedd cyfeiriadau amlwg at y prosiectau Adleoli a Chydleoli. Nodwyd fod cyfeiriadau at y prosiectau yn y ddogfen, ond y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei roi i'r dull o gyflwyno'r prosiectau.

## **Materion strwythurol, atebolrwydd a llywodraethiant corfforaethol**

Cafwyd trafodaeth am faterion strwythur, atebolrwydd a llywodraethiant corfforaethol. Nodwyd fod angen i'r Awdurdod benderfynu ar fanylion y naratif, gan gynnwys a ddylid cyflwyno ac argymhell strwythur newydd ar gyfer sefydliad S4C neu ddefnyddio'r ddogfen fel cyfle i arwain y drafodaeth a chyflwyno egwyddorion perthnasol.

Awgrymwyd y gellid cyflwyno'r drafodaeth am opsiynau a modelau posibl ar gyfer llywodraethiant corfforaethol yn hytrach na chyflwyno un model penodol. Roedd yr egwyddorion sy'n sail i weithgareddau darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig i unrhyw fodel arfaethedig.

Roedd safbwynt S4C o beidio mynegi dewis o ran atebolrwydd i naill ai San Steffan neu'r Cynulliad yn parhau i fod yn rhesymol ac yn berthnasol, ond dylid esbonio'n glir rhai o'r cwestiynau a'r materion i'w hystyried megis atebolrwydd i'r ffynhonnell/au ariannol a pherthnasedd materion lle mae'r cyfrifoldeb ar gyfer gwasanaethau ar draws y DU yn parhau yn San Steffan - megis materion EPG a chynllunio tonfeddi radio. Dylid hefyd bwysleisio parodrwydd S4C, fel sydd wedi ei nodi i Bwyllgor y Cynulliad yn ddiweddar, i gyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r datganiad ariannol gerbron y Cynulliad bob blwyddyn.

Nododd yr Aelodau y byddai angen ystyried cylch gorchwyl yr Adolygiad cyn gallu ystyried pa gwestiynau i'w hateb a pha bwyslais i'w roi ar elfennau'r ddogfen.

Trafodwyd opsiynau ar gyfer lawnsio'r ddogfen, a chytunwyd y dylid ceisio trefnu digwyddiad yng Nghaerdydd a Llundain er mwyn cyflwyno'r weledigaeth i aelodau etholedig yn y Cynulliad a San Steffan.

## **Penderfynwyd y dylid ystyried sylwadau'r Awdurdod, a lle bo'n briodol, eu hymgorffori yn fersiwn ddiwygiedig yr adroddiad i'w chyflwyno i'r Awdurdod ar gyfer cymeradwyaeth ym mis Mawrth.**

### **Diweddariad Prosiect Loteri Cymru**

Cyflwynodd EM ddiweddariad am Brosiect Loteri Cymru a nodwyd mai'r bwriad oedd lansio'r prosiect yn gyhoeddus ar 20 Mawrth, yn amodol ar gadarnhad gan fwrdd y prosiect yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror.

### **Y Prosiect Adleoli a datblygiad yr Egin**

Cyflwynodd IHJ ddiweddariad parthed y cynllun Adleoli. Cyfeiriodd at atodlen a oedd yn darparu atebion i nifer o gwestiynau y mae'r Awdurdod wedi eu nodi yn ystod y misoedd diwethaf parthed cefndir y prosiect Adleoli.

Holwyd yng nghyd-destun y drafodaeth gyhoeddus am gynlluniau'r Egin.. Eglurodd IHJ nad oedd cais grant PCDDS yn effeithio ar gynlluniau S4C, oherwydd bod PCDDS wedi darparu ymrwymiad i sicrhau ariannu'r cynllun yn ôl yn 2014, pa un ai byddai unrhyw gais am arian grant yn llwyddiannus ai peidio.

Nododd fod Prif Weithredwr Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi nodi fod cynlluniau'r ffordd newydd yn mynd rhagddynt yn ôl amserlen y prosiect.

Holwyd am ddiweddariad parthed cynlluniau caniatâd cynllunio ar gyfer ystad Llanisien ac esboniwyd fod yr ymgynghorwyr cynllunio wrthi'n paratoi cais "pre-application" ar gyfer defnydd preswyl yn unig. Roedd trafodaethau'n parhau hefyd gyda darpar brynwr arall.

Nododd IHJ ei siom fod adroddiadau newyddion diweddar wedi diystyru llawer o ffeithiau perthnasol gan gyflwyno darlun camarweiniol o gynlluniau'r Egin ac S4C.

Nodwyd pryder gan yr Aelodau fod adroddiadau yn y wasg am gais grant PCDDS yn niweidio enw da S4C.

Mynegwyd elfen o rwystredigaeth o'r dehongliad 'fod bwllch ariannol wedi ymddangos'.

#### **Strategaeth Hyfforddiant**

Nodwyd fod trafodaethau gyda TAC yn parhau, a gobeithir dod i gytundeb yn fuan parthed cynllun gyda TAC.

#### **Proses werthuso staff**

Nododd IHJ fod y broses flynyddol ar gyfer gwerthuso staff wedi cychwyn.

#### **Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi, Chwarter 3, 2016-17**

Cyflwynodd AR yr Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi ar gyfer Chwarter 3 2016-17.

Cyfeiriodd at berfformiad y gwasanaeth teledu gan nodi cynnydd o 6% yn y cyrhaeddiad ymysg siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ond gostyngiad flwyddyn ar flwyddyn y tu allan i Gymru. Fel y disgwyl, roedd y cyrhaeddiad yn parhau i fod yn fwy anwadal tu allan i Gymru. Serch hyn, roedd y patrwm ar i fyny dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Esboniwyd mai'r prif ffactorau a oedd yn gyfrifol am y gostyngiad tu allan i Gymru oedd llai o wyllo rhaglenni plant, perfformiad rhaglenni nos Sadwrn wedi dirywio oherwydd natur gemau'r Pro12, a llai o oriau o chwaraeon. Cyfeiriwyd at gymhariaeth ffigyrau BARB a TRP a nodwyd fod y patrymau'n ymddangos yn gyson, er bod ffigyrau TRP yn parhau'n uwch.

Roedd sesiynau gwyllo S4C wedi cynyddu 6%. Roedd y BBC wrthi'n newid dull cyfresi sesiynau gwyllo'r iPlayer a bydd angen asesu a yw'r newid wedi effeithio ar ffigurau gwyllo cynnwys S4C maes o law.

Cyfeiriwyd at arlwy'r Nadolig ac er bod cyrhaeddiad y gwasanaeth ychydig yn is na'r llynedd oherwydd natur y chwaraeon oedd ar gael i'w darlledu, nodwyd fod Y Gwyll, Cantata Memoria, Marathon Eryri, Hen Blant Bach a Stori Mabwysiadu wedi llwyddo i ddenu'r gynulleidfa.

### **8. Cyflwyno cofnodion drafft Pwyllgorau'r Awdurdod**

#### **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 1 Chwefror**

Cyflwynodd HJ gofnodion drafft cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 1 Chwefror.

[Crynodeb: Cafodd y Pwyllgor drafodaeth am bynciau'n cynnwys Noson Lawen, Anita, Deuwadau Rhys Meirion, cyflwyno cerddoriaeth gyfoes, cydweithio pellach gyda'r BBC a pholisi ffilm S4C]

#### **Cyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror**

Cyflwynodd HHE grynodedb ar lafar o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, a nodwyd y byddai adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i'r Awdurdod ar gyfer ei gyfarfod nesaf.

Cyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

**Incwm**

[Crynodeb: Cafwyd crynodeb o berfformiad gwerthiant hysbysebion a chronfa Sarasin LLP yn ystod y cyfnod]

**Prosiect Fferm Cyw**

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad cynhwysfawr ar waith dichonoldeb prosiect arfaethedig Fferm Cyw. Holwyd a oedd yr ymgynghorwyr allanol sydd wedi bod yn cynghori'r Bwrdd wedi ystyried dichonolrwydd ariannol y lleoliadau. Esboniwyd fod dau ymgynghorydd wedi craffu'r cynlluniau ariannol ac wedi ystyried dichonolrwydd y prosiect.

**Penderfynwyd y dylid argymhell penodi ymgynghorydd allanol i asesu priodoldeb prosesau craffu'r cynlluniau arfaethedig yn yr Awdurdod a'r Bwrdd Masnachol.**

9. **Adroddiad Ariannol Chwarter 3, 2016-17**  
Cyflwynodd ShW yr Adroddiad Ariannol ar gyfer chwarter 3 2016-17 a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.
10. **Trafod rhaglenni'r mis aeth heibio**  
[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio a chyfeiriwyd at raglenni a chyfresi adloniant, drama, materion cyfoes a phlant]
11. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr ac Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth**  
Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr a'r Adroddiad Cwynion er gwybodaeth.
12. **Ystyried Rhaglen Waith yr Awdurdod ar gyfer 2017 – 18**  
Cyflwynwyd diweddariad i Raglen Waith yr Awdurdod 2017 – 18 er gwybodaeth.
13. **Unrhyw Fater Arall**  
Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau, 9 Mawrth 2017 yng Nghaerdydd